



Consortiwm Canolbarth y De
Central South Consortium

Gwasanaeth Addysg ar y Cyd
Joint Education Service



HER CANOL DE CYMRU
CENTRAL SOUTH WALES CHALLENGE

Consortiwm Canolbarth y De: Canllaw i Rieni

Central South Consortium: A Guide for Parents



“

Mae manteision clir i ysgolion yn sgil cydweithio, gan gynnwys gwella deilliannau i ddisgyblion a chreu ymdeimlad ar y cyd o gyfrifoldeb am welliant. Mae bod yn agored, ymddiriedaeth a thryloywder rhwng arweinwyr ysgolion yn hanfodol, yn ogystal â buddsoddi mewn amser staff ar gyfer ymchwil, datblygu a chydweithio.

- *Meilyr Rowlands*
Prif Arolygydd, Estyn


”

“

There are clear benefits for schools in working together, including improving outcomes for pupils and generating a collective sense of responsibility for improvement. Openness, trust and transparency between school leaders are crucial, as well as investing in staff time for research, development and collaboration

- *Meilyr Rowlands*
Chief Inspector, Estyn

”



1/1/2016

Beth yw Consortiwm Canolbarth y De?

O fis Medi 2012 ymlaen, cytunodd awdurdodau lleol dros Gymru i ddarparu her a chefnogaeth i ysgolion ar ran awdurdodau lleol ymhob rhanbarth.

Mae pedwar consortia addysg rhanbarthol yng Nghymru.

Mae Consortiwm Canolbarth y De (CCD) yn gweithio ar ran pum awdurdod lleol:

- Pen-y-bont ar Ogwr
- Caerdydd
- Merthyr Tudful
- Rhondda Cynon Taf
- Bro Morgannwg

Rôl y Consortiwm yw cyflwyno her a chefnogaeth i ysgolion fel bod addysg i ddysgwyr a chefnogaeth i athrawon ac arweinwyr yn gwella ar draws y rhanbarth.

Caiff y Consortiwm ei ariannu gan yr awdurdodau lleol ac mae'n atebol iddynt.

What is the Central South Consortium?

From September 2012, local authorities across Wales agreed to deliver support and challenge to schools on behalf of local authorities in each region.

There are four regional education consortia in Wales.

The central south regional consortium (CSC) operates on behalf of five local authorities:

- Bridgend
- Cardiff
- Merthyr Tydfil
- Rhondda Cynon Taff
- Vale of Glamorgan

The Consortium's role is to deliver challenge and support to schools so that education for learners and support for teachers and leaders improves across the region.

The Consortium is funded by the local authorities and is accountable to them.

Beth rydym eisiau ei gyflawni?

Mae mwy na 400 o ysgolion yng nghanolbarth y de. Mae'r rhain yn allweddol i lwyddiant addysgol ac economaidd Cymru ar gyfer y dyfodol.

Mae llwyddiant ysgolion yma yn hanfodol i iechyd a chyfoeth Cymru gyfan.

Dyma pam mae nodau'r Consortiwm yn cynnwys:

Gwella safonau i bob plentyn a pherson ifanc ym mhob ysgol, ac i'r rhai mwyaf agored i niwed gyflymaf.

Gwella gallu yn y system ysgolion fel bod ysgolion yn gweithio ynghyd i wella.

What do we want to achieve?

There are 400+ schools in the central south region. These are the key to the future educational and economic success of Wales.

The success of schools here is crucial to the health and wealth of the whole of Wales.

That is why the Consortium's aims include:

Improving standards for all children and young people in all schools, and for the most vulnerable fastest.

Improving capacity in the school system so that schools work together to support each other to improve.

Beth mae'r Consortiwm yn ei wneud i'w wireddu?

- Darparu Ymgynghorydd Her i bob ysgol yn y rhanbarth (wedi'i bwysoli o blaid yr ysgolion sydd â'r angen mwyaf), a dadansoddiadau data amserol i gefnogi hunanarfarnu a chynllunio gwella gan gynnwys dyfarniadau categoreiddio;
- Datblygu cefnogaeth i ysgolion dynnu arni wrth gynllunio gwella yn unol ag amodau grant; mae hyn yn cynnwys llythrennedd, Saesneg/Cymraeg a chefnogaeth rhifedd, addysgu, arweinyddiaeth a chefnogi'r cwricwlwm. Daw'r gefnogaeth hon o ysgolion y rhanbarth yn fwyfwy;
- Brocera partneriaethau a rhwydweithiau ysgol i ysgol, adolygiadau cymheiriaid a meithrin gallu ysgolion o ran addysgu ac arweinyddiaeth;
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gyflawni ei flaenoriaethau yn y rhanbarth a chydag awdurdodau er mwyn datblygu a chyflawni strategaethau gwella ysgolion ar lefel ranbarthol;
- Dyrannu grant i ysgolion yn y rhanbarth yn gyfiawn gydag arweiniad a chynghor ar sut gellir defnyddio'r grant i lywio gwelliant.

What does the Consortium do to make it happen?

- Provides a Challenge Adviser to each school in the region (weighted to schools most in need), and timely data analyses to support self evaluation and improvement planning including the judgements in categorisation;
- Develops support for schools to draw upon in their improvement planning in line with grant conditions, this includes literacy, English/ Welsh and numeracy support, teaching, leadership and curriculum support. Increasingly in this region, the support is sourced from schools across the region;
- Brokers school to school partnerships and networks, peer reviews and builds school led capacity for teaching and leadership;
- Works with Welsh Government to deliver its priorities in the region and with authorities to develop and deliver school improvement strategies on a regional basis;
- Allocates grant to schools in the region on an equitable basis along with guidance and advice on how grant can be used to drive improvement.

Sut mae ysgolion Canolbarth y De yn perfformio?

Mae ysgolion yng Nghanolbarth y De yn gwella'n gyflym.


Ers 2012 mae deilliannau addysgol wedi gwella'n gyson.

How are schools in the Central South Consortium performing?

Schools in the Central South region are improving quickly.

Since 2012 educational outcomes have improved steadily.

Consortium Canolbarth y De / Central South Consortium



Ond rydym eisiau mynd ymhellach

Erbyn 2018, uchelgais y Consortiwm yw bod:

- Dysgwyr yn cyflawni deilliannau sy'n perfformio uchaf yng Nghymru o 2016/17, ac erbyn 2018, bydd ysgolion yn dangos gwelliant cynaliadwy ym mhob lefel sydd gystal â goreuon y DU.
- Penaethiaid yn ystyried bod gwelliant eu hysgolion eu hunain yr un mor bwysig â gwelliant ysgolion partner
- Dysgwyr agored i niwed yn cau'r bwlch ar eu cyfoedion yn gynyddol
- Mae Canolbarth y De yn le sy'n cael ei adnabod am ansawdd ei dysgu proffesiynol a arweinir gan ysgolion a gwaith arweinyddiaeth gyda'r sector addysg uwch a darparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon.
- Lle bydd partneriaethau ehangach â busnes, cymunedau a rhieni yn cefnogi gwaith ysgolion er mwyn atgyfnerthu uchelgais.

But we want to go further

By 2018, the Consortium's ambition is that:

- Learners achieve outcomes that are the highest performing in Wales from 2016/17 and, by 2018, schools are showing sustained improvement at all levels rivalling the best in the UK
- Headteachers care as much for the improvement in partner schools as their own
- Vulnerable learners are increasingly closing the gap on their peers
- The Central South region is place that is known for the quality of its school led professional learning and leadership working with the higher education sector and initial teacher training providers.
- Where the wider partnerships of business, community and parents get behind the work of schools to reinforce aspiration.

Sut mae cael mwy o wybodaeth?

Mae Consortiwm Canolbarth y De yn cynnal nifer o sianeli cyfathrebu allweddol:

- Gwefan: www.cscjes.org.uk
- Edrych ar gyfleoedd cefnogaeth ysgol: www.professional-learning.cscjes.org.uk
- Astudiaethau achos o hyd a lled y rhanbarth: www.case-studies-cscjes.org.uk
- Twitter: www.twitter.com/cscjes
- Pinterest gan gynnwys sylw yn y wasg: www.pinterest.com/cscjes/central-south-wales-challenge/
- Cylchlythyr hanner tymhorol: www.cscjes.org.uk/Communications/Newsletters.aspx
- Bwletin ysgolion wythnosol: www.cscjes.org.uk/Communications/School-Bulletins.aspx
- Cysylltwch â ni ar **01443 827500** neu drwy e-bostio communications@cscjes.org.uk.

How do I find out more?

The Central South Consortium provides a number of key communication channels:

- Website: www.cscjes.org.uk
- Browse school support opportunities: www.professional-learning.cscjes.org.uk
- Case studies from across the region: www.case-studies-cscjes.org.uk
- Twitter: www.twitter.com/cscjes
- Pinterest including press coverage: www.pinterest.com/cscjes/central-south-wales-challenge/
- Half termly newsletter: www.cscjes.org.uk/Communications/Newsletters.aspx
- Weekly school bulletin: www.cscjes.org.uk/Communications/School-Bulletins.aspx
- Please also feel free to contact us directly on **01443 827500** or e-mail communications@cscjes.org.uk.